| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **6 CHWEFROR 2025** |
| TEITL: | **RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT** |
| PWRPAS: | **Diweddaru'r Pwyllgor ar y newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil y Ddeddf Caffael 2023** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn y Rheolau Gweithdrefn Contract diwygiedig, a ddaw yn weithredol ar y dyddiad y daw'r deddfwriaeth newydd i rym** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD LLIO ELENID OWEN** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **IWAN EVANS,<br>PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL A SWYDDOG MONITRO<br><br>ARWEL EVANS<br>RHEOLWR CAFFAEL** |

---

1. Ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r Llywodraeth (DU) wedi adnabod hyn fel cyfle i adolygu deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â chaffael yn y sector gyhoeddus. Maent wedi pasio y Ddeddf Caffael 2023 ac yn wreiddiol mi oedd y Ddeddf i fod i ddod i rym ar 28 Hydref 2024 ond gafodd ei wthio ymlaen ac rŵan yn dod i rym ar 24 Chwefror 2025. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldebau a dyletswyddau ar sefydliadau sector gyhoeddus yng Nghymru sydd hefyd gysylltiedig â chaffael.

2. Yn sgil y ddeddfwriaeth newydd, mae'r adran Gaffael wedi bod yn paratoi y Cyngor ar gyfer y newid mewn deddfwriaeth sydd i ddod. Fel rhan o wneud hyn mae'r adran Gyfreithiol, mewn ymgynghoriad â'r adran Gaffael, wedi bod yn adolygu trefniadau mewnol y Cyngor o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contract sydd yn dod o dan adran 17 y Cyfansoddiad.

3. Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contract ydi nodi'r broses dylai'r Cyngor ddilyn wrth gynnal ymarfer caffael ac yn benodol ymarfer caffael sydd ddim yn disgyn o dan y Ddeddf neu Rheoliadau. Mae'r Rheolau yn nodi'r dulliau gwahanol a phryd y dylid eu defnyddio. Mae angen diweddaru'r Rheolau i adlewyrchu y newid yn y ddeddfwriaeth caffael a sicrhau cydymffurfiaeth trwy adolygu prosesau caffael y Cyngor. Hefyd, mae'n gyfle i sicrhau bod y Rheolau Gweithdrefn Contract yn ddigon hyblyg i ganiatáu i swyddogion gynnal ymarfer caffael yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod yna reolaeth i unrhyw ymarfer caffael ac yn sicrhau gwerth am arian i'r Cyngor.

4. Mi fuasai peidio adolygu a diwygio y Rheolau yn codi risg sylweddol i'r Cyngor a buasai'r Cyngor yn agored i her gyfreithiol am fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ac hefyd yn debygol o gael beirniadaeth gan archwilwyr a rheoleiddwyr.

**Atodiad 1**: Adran 17 diwygiedig (Cymraeg)

**Atodiad 2**: Adran 17 diwygiedig (Saesneg)